



## Croeso i'n Hadroddiad ar Effaith 2016-17

Ers i ni gael ein sefydlu 35 mlynedd yn ôl, mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod wrth wraidd economi gymdeithasol ffyniannus Cymru, yn dod ag arianwyr a phartneriaid at ei gilydd i wneud ein cymunedau yn fwy hyderus, yn fwy cydweithredol, yn fwy galluog ac yn fwy uchelgeisiol.

Mae ein gwaith heddiw yn bwysicach nag erioed, wrth i bobl, cymunedau a busnesau Cymru wynebu pwysau cymdeithasol ac economaidd cynyddol.

Rydym yn gweithio tuag at economi decach. Rydym yn helpu i greu a chynnal cyfoeth o fewn ein cymunedau drwy ddatblygu cwmnïau cydweithredol a busnesau cymdeithasol. Rydym yn rhoi'r sgiliau i bobl gymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau eu hunain a chryfhau eu cymunedau. Gallwch ddarllen am ein gwaith dros y deuddeg mis diwethaf yn yr adroddiad canlynol.

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn sefydliad cydweithredol di-elw sy'n helpu pobl yng Nghymru i wella eu bywydau a'u bywoliaethau. Caiff popeth rydym yn ei wneud ei lywio gan ein hymrwymiad i werthoedd cydweithredol a'n cydweithrediad agos ag arianwyr a phartneriaid cyflawni i gyflawni nodau cymdeithasol ac economaidd.

Fel cwmni cydweithredol, rydym yn cael ein tywys gan gymuned weithgar o aelodau sy'n llywio ein cyfeiriad strategol, yn craffu ar ein gweithgarwch, yn cynyddu ein dylanwad ac yn sicrhau ein bod yn llais i'r economi gymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn diolch iddynt am eu cefnogaeth.

Rydym bob amser yn croesawu aelodau newydd. Os hoffech weithio gyda ni neu gefnogi Canolfan Cydweithredol Cymru fel aelod, ewch i [cymru.coop/aelodaeth](http://cymru.coop/aelodaeth).

Gyda'n gilydd gallwn adeiladu dyfodol gwell i bawb yng Nghymru.

Dymuniadau gorau

Derek Walker, Prif Weithredwr

### Prif Swyddfa

Y Borth  
13 Ffordd Beddau  
Caerffili CF83 2AX

### Bangor

2a Llys Onnen  
Ffordd y Llyn  
Parc Menai  
Bangor  
Gwynedd LL57 4DF

### Caerfyrddin

Canolfan Busnesau  
Cefn Gwlad  
Nant Y Ci  
Caerfyrddin SA33 5DR

### Abertawe

Canolfan Dylan Thomas  
Plas Somerset  
Abertawe SA1 1RR

Am ragor o wybodaeth  
cysylltwch â ni ar:

**0300 111 5050**

Fydd costau lleol yn  
gymwys

[info@wales.coop](mailto:info@wales.coop)



# Canolfan Cydweithredol Cymru 2016/17

Sefydliad cydweithredol di-elw sy'n helpu pobl yng Nghymru i wella eu bywydau a'u bywoliaethau.

Mae ein hamcanion corfforaethol yn adlewyrchu sut rydym yn cydweithredu i gyflawni ein cenhadaeth i ddatblygu busnesau cynaliadwy a chymunedau cryf a chynhwysol.

## Amrywiaeth eang o waith mewn tri phrif faes:



### Cefnogi busnesau cymdeithasol

Rydym yn rhoi cymorth arbenigol i fusnesau cymdeithasol fel y gallant ddarparu gwasanaethau hanfodol, darparu swyddi a hyfforddiant o safon a chryfhau economïau lleol



### Trechu tlodi a hyrwyddo cynhwysiant

Rydym yn defnyddio dulliau cydweithredol i leihau tlodi a diweithdra drwy greu cymunedau gwydn, cydlynus a llewyrchus



### Polisi ac ymchwil flaengar

Mae ein gwaith ymchwil a pholisi dylanwadol yn nodi pam mae atebion cydweithredol yn effeithiol ac yn berthnasol wrth fynd i'r afael â rhai o heriau mawr cymdeithas

## Mae ein nodau'n ein rhoi wrth wraidd economi gymdeithasol ffyniannus y genedl:

- + Hyrwyddo economi gynhwysol a chydweithredu – arwain y ddadl gyhoeddus, llunio'r gwaith o greu polisi, treialu prosiectau arloesol newydd, a rhannu ffyrdd llwyddiannus o weithio
- + Arwain twf cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol a busnesau y mae'r gweithwyr yn berchen arnynt yng Nghymru
- + Grymuso pobl a chymunedau i wella eu bywydau a'u bywoliaethau, trechu tlodi a helpu i greu cymdeithas gynhwysol
- + Defnyddio technoleg ddigidol er lles cymdeithasol, gwneud y gorau o botensial technoleg ddigidol er mwyn cyflawni ein diben cymdeithasol
- + Sefydliad cryf, annibynnol a chydweithredol sy'n sicrhau bod ein gwerthoedd yn sail i bopeth rydym yn ei wneud

## Sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda sy'n gwasanaethu Cymru gyfan:

1982

Fe'i sefydlwyd ym 1982

64

64 aelod o staff

£3.7m

Trosiant o £3.7 miliwn

4

4 swyddfa ledled Cymru – Bangor, Caerfyrddin, Abertawe a Chaerffili

# Blwyddyn o gyflawni prosiectau yn llwyddiannus ledled Cymru:

## Helpu busnesau cymdeithasol i dyfu – Busnes Cymdeithasol Cymru

**114** o fusnesau cymdeithasol wedi'u helpu i ehangu

**86** o swyddi newydd wedi'u creu

**80** o sefydliadau wedi mabwysiadu mesurau cydraddoldeb neu gynaliadwyedd newydd

- + Cynhadledd genedlaethol wedi rhoi sgiliau a gwybodaeth werthfawr i gynrychiolwyr
- + Helpodd rhwydweithiau rhanbarthol, digwyddiadau cwrrd â'r buddsoddwyr cymdeithasol a seminarau elusennol fusnesau cymdeithasol i wneud cysylltiadau newydd ac enill busnes
- + Enillodd ein cleient, Dulas, wobwr fawreddog Menter Gymdeithasol y Flwyddyn ar gyfer y DU

## Cefnogi cwmnïau cydweithredol cymdeithasol hunangymorth – Cydweithredu i Ofalu

**18** o grwpiau wedi cael cymorth dwys, ymarferol

**70** o bobl wedi cydweithio er mwyn sefydlu cwmnïau cydweithredol gofal

**4** gweithdy wedi rhoi gwybodaeth hanfodol a sgiliau ymarferol i gynrychiolwyr

- + Fe'i lanswyd yn llwyddiannus ym mis Mehefin 2016 – daeth dros 100 o bobl i glywed mwy am gwmnïau cydweithredol gofal
- + 7 cwmni cydweithredol bellach yn dod i'r amlwg i ddarparu gwasanaethau gofal, cymorth a lles mewn ffordd arloesol
- + Wedi cefnogi Cartrefi Cymru, sy'n cyflogi 1,248 o bobl, i ddod yn gwmni cydweithredol

## Cynyddu buddsoddiad cymdeithasol – Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru

**31** o fusnesau cymunedol wedi cael cymorth buddsoddi arbenigol

**5** sesiwn hyfforddi wedi cynyddu ymwybyddiaeth o gyfranddaliadau cymunedol

**62** o bobl wedi elwa ar hyfforddiant

- + Fe'i lanswyd ym mis Hydref 2016 gan yr actor a'r ymgyrchydd Michael Sheen gyda diddordeb enfawr yn y cyfryngau
- + Dangosodd ymweliad astudio â'r Bell Inn yng Nghaerfaddon botensial enfawr buddsoddiad cyfranddaliad cymunedol
- + Pecyn cymorth ar-lein wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod canllawiau a gwybodaeth ar gael 24/7

## Datblygu cartrefi cydweithredol – Tai Cydweithredol

**4** datblygiad tai cydweithredol wedi'u cwblhau

**75** o bobl bellach yn byw mewn cartrefi cydweithredol fforddiadwy

**129** o bobl wedi'u hyfforddi i fod yn aelodau cydweithredol gweithgar

- + Rhoddwyd cymorth dwys i 5 cynllun tai cydweithredol arall
- + Ymgysylltiad eang â'r awdurdod lleol, y sector tai a'r sector cymunedol er mwyn annog mwy o ddatblygu tai cydweithredol
- + Adnoddau ar-lein wedi'u cyhoeddi i helpu mwy o gynlluniau tai cydweithredol nag erioed

## Annog pobl i fynd ar-lein – Cymunedau Digidol Cymru

**63,611** o bobl wedi'u cynorthwyo i fynd ar-lein

**365** o sefydliadau wedi'u cynorthwyo i helpu eu staff a'u cleientiaid i wneud mwy gyda TG

**754** o staff y rheng flaen wedi'u hyfforddi ym maes cynhwysiant digidol

- + Siarter Cynhwysiant Digidol wedi'i lansio er mwyn galfaneiddio gweithgarwch cynhwysiant digidol. 180 o sefydliadau wedi addo gweithredu
- + Noddwyd y wobwr cynhwysiant digidol yng Ngwobrau Trydydd Sector Cymru er mwyn tynnu sylw at waith cynhwysiant digidol gwyched ledled Cymru
- + Recriwtiodd y cynllun Arwyr Digidol 447 o sgowtiaid, geidiaid, cadetiaid yr heddlu a myfyrwyr sydd bellach yn helpu pobl i fynd ar-lein

## Gwella gallu ariannol – Eich Arian, Eich Cartref

**475** o denantiaid o'r sector rhentu preifat wedi gwella eu sgiliau rheoli arian

**676** o bobl wedi'u gwneud yn fwy ymwybodol o gynhwysiant ariannol drwy hyfforddiant ymarferol

- + Un o'r sefydliadau prin sy'n gweithio gyda thenantiaid o'r sector rhentu preifat y mae angen cymorth arnynt
- + Adroddiad gwaddol wedi tynnu sylw at gyflawniadau prosiect allweddol a gwersi amhrisiadwy
- + Mae cyllid y Gwasanaeth Cyngtori Ariannol wedi sicrhau'r gwaith hanfodol hwn am flwyddyn arall

## Cynyddu cynhwysiant ariannol – Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol

**105** o staff y rheng flaen wedi'u hyfforddi i helpu pobl â phryderon ariannol

**73%** yn dweud bod hyfforddiant wedi'u helpu i reoli eu harian eu hunain yn well

- + Gwefan Egluro Ariannol Cymru wedi rhoi cyngor ac adnoddau rheoli arian hanfodol i bobl mewn angen ariannol
- + Prosiect peilot â thri undeb credyd i geisio cynyddu nifer y bobl sy'n rhan o gynlluniau didynnu o'r gyflogres.

## Llywio'r agenda wleidyddol – Polisi ac Ymchwil

**7** Rhoddwyd adborth hollbwysig i 7 ymgyng-horiad ar ran y sector

**9** Dangoswyd effaith menter gymdeithasol i 9 Aelod Cynulliad drwy ymweliadau

- + Wedi trefnu digwyddiadau llwyddiannus ar gyfer y Gweithgor Trawsbleidiol ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol a gynyddodd ymwybyddiaeth wleidyddol o'r sector
- + Cyhoeddwyd ymchwil ar gynhwysiant digidol a oedd yn ysgogi meddwl, ac atebion cydweithredol ar gyfer pobl hunangyflogedig a greodd gefnogaeth wleidyddol i fentrau newydd
- + Wedi dod â'r sefydliadau cydweithredol blaenaf ynghyd er mwyn creu'r Gynghrair Cwmnïau Cydfuddiannol, partneriaeth ddynamig newydd sy'n sbarduno'r sector yn ei flaen

## Geirdaon gan ein cleientiaid:

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn ffynhonnell mor hanfodol o wybodaeth ac yn hyrwyddwr gwerthfawr busnesau fel ein busnes ni, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu pob un ohonom.

Alastair Marsden, Dulas

Menter Gymdeithasol y Flwyddyn ar gyfer y DU

Gwledd o wybodaeth a phrofiad y gellir manteisio arnynt a fyddai'n rhy gostus i sefydliad bach eu fforddio. Cefnogaeth wych a chyfle i hyrwyddo ein prosiect i sefydliadau eraill a chyrrff statudol.

Fiona Davies, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol

Gorllewin y Rhyl, Cleient Tai Cydweithredol

Mae Marc a Steve wedi mynd allan o'u ffordd i weithio gyda mi a'r bwrdd iechyd er mwyn i'n cymunedau lleol gael mynediad at ofal iechyd digidol.

Sarah Hicks, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Cleient Cymunedau Digidol Cymru

Roedd Busnes Cymdeithasol Cymru yn ffynhonnell amhrisiadwy o help a chefnogaeth ar y dechrau wrth i ni geisio sefydlu ein hunain fel y practis deintyddol cydweithredol cyntaf yng Nghymru, ac mae wedi parhau felly drwy gydol y broses hyd yma.

Hannah Hutchison, Practis Deintyddol Gateway

Cleient Busnes Cymdeithasol Cymru

## Lle gwych i weithio:



95%

o gyflogaion yn deall gwerthoedd y Ganolfan

Lefel 2 achrediad PQASSO – blaenoriaethu llywodraethu effeithiol, rheoli ansawdd a rheoli

90%

yn dweud bod rheolwyr yn ymarfer ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn ymrwymedig i amrywiaeth

Gwobr y Ddraig Werdd – gweithredu er mwyn rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd

86%

yn dweud y byddent yn argymhell y Ganolfan fel lle da i weithio

Lefel efydd Buddsoddwyr mewn Pobl – arwain, cefnogi a rheoli ein pobl er mwyn parhau i lwyddo

## Cymorth gan amrywiaeth o arianwyr:



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

